# Nodyn Ymchwil: Cynllunio Gofodol Morol

## Rhagfyr 2014

## Cyflwyniad

Yn sgil *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* (Deddf y Môr o hyn ymlaen), sefydlwyd system newydd ar gyfer cynllunio ym moroedd y DU. [1] Bydd cynllunio gofodol morol yn creu fframwaith ar gyfer gweithgareddau yn nyfroedd y glannau a'r môr mawr yng Nghymru. Nod y broses gynllunio yw sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall pa weithgareddau sy'n debygol o gael eu caniatáu yn y gwahanol ddyfroedd a datrys, cyhyd ag y bo modd, unrhyw wrthdaro'n ymwneud â defnyddio'r môr a hynny ar sail ofodol.

Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am baratoi cynlluniau morol yn nyfroedd glannau Cymru (0-12 môr-filltir) a dyfroedd môr mawr Cymru (12 môr-filltir at y llinell ganol rhwng Cymru ag Iwerddon). Rhaid i Ysgrifennydd Gwladol perthnasol y DU roi caniatad i faterion yn y cynllun a gadwyd yn ôl.

Mae Deddf y Môr yn nodi'r broses benodol ar gyfer cynllunio morol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ysgrifennydd Gwladol y DU gydweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig, cyhyd ag y bo modd, i fabwysiadu Datganiad Polisi Morol. Mae'r Datganiad yn nodi'r amcanion lefel uchel ar gyfer amgylchedd morol y DU a fframwaith ar gyfer datblygu cynlluniau morol.

Yn dilyn y penderfyniad i fabwysiadu datganiad polisi morol y DU ym mis Mawrth 2011, mae gwledydd y DU wrthi'n datblygu eu Cynlluniau Morol a hynny ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

Mae'r Nodyn Ymchwil hwn yn rhoi cefndir y cynlluniau gofodol morol ac yn esbonio'r cynnydd a wnaed yng ngwledydd y DU.

## Y Datganiad Polisi Morol

Mabwysiadodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig Ddatganiad Polisi ar y cyd ym mis Mawrth 2011. [2] Roedd hwn yn nodi'r strategaeth hirdymor ar gyfer rheoli datblygu cynaliadwy yn rhanbarth morol y DU. Mae'r Datganiad Polisi Morol yn cyflwyno gweledigaeth gyffredin ar gyfer holl weinyddiaethau'r DU, sef 'sicrhau cefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol'. Nod y datganiad polisi morol yw hwyluso a chynorthwyo â'r gwaith o baratoi cynlluniau morol, sicrhau eu bod yn bodloni amcanion morol lefel uchel ac yn defnyddio adnoddau morol mewn modd cynaliadwy.

Mae Adran 58 o Ddeddf y Môr yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus sy'n gwneud penderfyniadau i orfodi neu ganiatáu gweithgaredd a fydd, neu a all, effeithio ar amgylchedd morol y DU, wneud hynny'n unol â'r Datganiad Polisi Morol a'r Cynllun Morol perthnasol, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall.

## Cynlluniau Morol

Mae Deddf y Môr yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i ddatblygu cynlluniau morol ar gyfer yr holl ranbarthau sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Polisi Morol. [3]

Bydd y cynlluniau morol yn nodi'n fanwl sut y bydd amcanion polisi'r Datganiad Morol yn cael eu

[1] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** Pennod 23, [fel ar 4 Tachwedd 2014]

[2] Llywodraeth EM, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru, **UK Marine Policy Statement**, (Saesneg yn unig) Mawrth 2011 [fel ar 4 Tachwedd 2014]

[3] Llywodraeth EM, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru, ***UK Marine Policy Statement*** (Saesneg yn unig) Mawrth 2011 [fel ar 4 Tachwedd 2014]

cyflawni'n lleol ac yn rhoi canllawiau ar sut y bydd y gweithgareddau a'r adnoddau morol yn yr ardaloedd yn cael eu rheoli. Bydd y cynlluniau'n cynnwys canllawiau gofodol sy'n nodi'r mannau hynny lle y bydd caniatâd ar gyfer gwahanol weithgareddau'n fwyaf tebygol o gael ei roi. Bydd angen seilio'r cynlluniau ar dystiolaeth a bydd yn rhaid rhoi cymaint o sicrwydd â phosibl i randdeiliaid gan gydnabod hefyd y bydd angen eu haddasu dros gyfnod wrth i'r amgylchedd newid. Disgwylir i'r broses o ddrafftio'r cynlluniau hefyd ystyried effaith bosibl y gwahanol weithgareddau yn y tymor hir.

Cyn mynd ati i baratoi'r Cynlluniau Morol, rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gyhoeddi Datganiadau o Gyfranogiad y Cyhoedd sy'n nodi sut y gall rhanddeiliaid fod yn rhan o'r broses a sut y gallant roi sylwadau ar y cynlluniau. Mae'r Datganiadau hyn yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf y Môr a rhaid eu cyhoeddi cyn dechrau paratoi Cynlluniau Morol.

## Yr Amserlen ar gyfer Cynllunio Morol yng Nghymru

Ar 16 Chwefror 2011, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch sut roedd yn bwriadu mynd ati i baratoi cynlluniau morol.4 Ers yr ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y caiff un Cynllun Morol Cenedlaethol ei baratoi ar gyfer Cymru. Bydd y cynllun yn ymdrin â dyfroedd y glannau a'r môr mawr sydd i'w gweld ar fap ar wefan y Llywodraeth.[5] Yn nogfen ymgynghori 2011, nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn gobeithio mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru erbyn diwedd 2012/13. Yna, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru mai ei nod yw cael fersiwn gychwynnol o'r Cynllun Morol Cenedlaethol ar waith erbyn 2015.6 Bydd Cynlluniau Morol Cenedlaethol Cymru yn cwmpasu cyfnod o 20 mlynedd.

Yn gynharach eleni, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch ei Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.[7] Ceisiodd yr ymgynghoriad gael barn ynghylch sut a phryd y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod y broses o baratoi Cynllun Morol. Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 3 Chwefror 2014 a daeth i ben ar 28 Mawrth 2014 a chafwyd 56 o ymatebion. Yn ôl Llywodraeth Cymru, roedd 89% o'r ymatebwyr yn cytuno â'i dull o ymgysylltu â'r cyhoedd.[8] Fodd bynnag, gwnaed awgrymiadau i wella'r ffordd y gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno'r agweddau cadarnhaol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd 5% o'r ymatebwyr yn anghytuno â chynigion Llywodraeth Cymru, a'r prif reswm a nododd y rhain oedd diffyg ymgysylltu â'r diwydiant pysgota. Mae'r fersiwn ddiwygiedig o'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer Cynllunio Morol yng Nghymru wedi'i chyhoeddi erbyn hyn.[9] Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu grŵp cyfeirio rhanddeiliaid ar gyfer cynllunio morol fel rhan o ddull ehangach o ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad yn ddiweddar ynghylch Gweledigaeth ac Amcanion drafft ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn ogystal â'r strwythur arfaethedig ar gyfer y Cynllun.[10] Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 19 Awst 2014 a daeth i ben ar 10 Tachwedd 2014. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn cyflwynodd Llywodraeth Cymru

[4] Llywodraeth Cymru, ***Datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru,*** 16 Chwefror 2011 [fel ar Tachwedd 2014]

[5] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru - Rhanbarthau'r Glannau a'r Môr Mawr***, 8 Awst 2014 [fel ar 6 Tachwedd 2014]

[6] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru,*** 3 Chwefror 2014 [fel ar 6 Tachwedd 2014]

[7] *ibid*

[8] Llywodraeth Cymru, ***Crynodeb o ymatebion i'r ymgnghoriad ynghylch fersiwn ddrafft o'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru***, 2014 [fel ar 4 Tachwedd 2014]

[9] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru,*** 3 Chwefror 2014 [fel ar 4 Tachwedd 2014]

[10] Llywodraeth Cymru, ***Gweledigaeth ac Amcanion drafft ar gyfer strwythur arfaethedig Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru***, 19 Awst 2014 [fel ar 4 Tachwedd 2014]

synthesis gychwynnol o dystiolaeth forol - Ymarfer Cwmpasu Strategol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a fersiwn gynnar o Borthol Tystiolaeth Ofodol y Cynllun Morol.

Cyn eu mabwysiadu, rhaid i Lywodraeth y DU gytuno ar y cynlluniau cenedlaethol ar gyfer y glannau a'r môr mawr. Bob chwe blynedd bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod adroddiadau ar weithredu Cynlluniau Morol Cymru gerbron y Cynulliad yn unol ag adran 61 o Ddeddf y Môr.[11] Rhaid i unrhyw benderfyniad awdurdodi a gorfodi sydd, neu a allai, effeithio ar ardal forol gydymffurfio â'r Cynlluniau Morol neu, os nad oes Cynllun Morol wedi'i fabwysiadu eto, rhaid iddynt gydymffurfio â'r Datganiad Polisi Morol. [12]

## Datblygu cynlluniau morol ledled y DU

Yn Lloegr, y Sefydliad Rheoli Morol sy'n gyfrifol am ddatblygu cynlluniau morol ar gyfer dyfroedd y glannau a'r môr mawr. [13] Mae un ar ddeg o ranbarthau cynllunio morol wedi'u sefydlu, a bydd gan bob un ohonynt Gynllun Morol sy'n ymdrin â gweithgareddau dros gyfnod o 20 mlynedd. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu bob tair blynedd.[14] Disgwylir y bydd gan bob rhanbarth cynllunio morol gynllun erbyn 2021. Dyfroedd y glannau a'r môr mawr yn y dwyrain oedd yn y ddau ranbarth cyntaf yn Lloegr a ddewiswyd yn y cyswllt hwn. Cyhoeddwyd y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer Cynllun Morol y Dwyrain yn wreiddiol ym mis Ebrill 2011 a chafodd ei adolygu ym mis Gorffennaf 2013 gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol.[15] Cyhoeddwyd y cynlluniau terfynol ar gyfer y rhanbarthau hyn ar 2 Ebrill 2014.[16] Dyfroedd y glannau ac ardal y môr mawr yn y de oedd y trydydd a'r pedwerydd rhanbarth yn Lloegr a ddewiswyd at ddibenion cynllunio morol. Cymeradwyodd yr Ysgrifennydd Gwladol y Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer rhanbarth cynllunio morol y de ym mis Ebrill 2013.[17] Mae'r Sefydliad Rheoli Morol yn disgwyl rhyddhau ymgynghoriad drafft ynghylch Cynlluniau Morol  y De er mwyn cael sylwadau ffurfiol arnynt yn ystod y gaeaf 2015-16.

Yn yr Alban, creodd *Deddf Môr yr Alban 2010* fframwaith cynllunio gofodol newydd ar gyfer rhanbarth dyfroedd y glannau, a Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am gynllunio yn nyfroedd y môr mawr o dan Ddeddf Môr y DU. [18] Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cyhoeddi Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd sy'n nodi sut y gellir cyflwyno sylwadau yn ystod y broses o ddatblygu Cynllun Cenedlaethol. [19] Diwygiwyd y datganiad hwn ym mis Medi 2014.  Mae Llywodraeth yr Alban wrthi ar hyn o bryd yn datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol.  Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Morol Cenedlaethol drafft rhwng 25 Gorffennaf a 13 Tachwedd 2013.[20] Mae'r amserlen ar gyfer datblygu'r Cynllun Morol Cenedlaethol ymhellach i'w gweld ar wefan Llywodraeth yr Alban a disgwylir y caiff y Cynllun ei gwblhau yn 2015.[21] Hefyd, rhoddodd *Deddf  Môr yr Alban 2010* bŵer i Lywodraeth yr Alban greu Rhanbarthau Morol a dirprwyo pwerau cynllunio i'r  rhanbarthau.  Mae nifer y Rhanbarthau Morol yn yr Alban yn cael ei hystyried ar hyn o bryd. Caiff cynlluniau rhanbarthol eu datblygu ar ôl

---

[11] Llywodraeth Cymru, ***Datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru,*** 16 Chwefror 2011 [fel ar 4 Tachwedd 2014]
[12] *ibid*
[13] Gwefan Llywodraeth y DU,  ***Marine planning in England***, (Saesneg yn unig) 11 Mehefin 2014 [fel ar 5 Tachwedd 2014]
[14] *ibid*
[15] Gwefan Llywodraeth y DU ***East marine plan areas: Statement of Public Participation*** (Saesneg yn unig) 11 Mehefin 2014 ]fel ar 6 Tachwedd 2014]

[16] Gwefan Llywodraeth y DU, ***East Inshore and East Offshore marine plan areas***, (Saesneg 11 Mehefin 2014 [fel ar 5 Tachwedd 2014]
[17] Gwefan Llywodraeth y DU ***East marine plan areas: Statement of Public Participation***(Saesneg yn unig) 11 Mehefin 2014 ]fel ar 5 Tachwedd 2014]
[18] ***Deddf Môr yr Alban 2010***, asp 5 (Saesneg yn unig) [fel ar 6 Tachwedd 2014]
[19] Llywodraeth yr Alban, ***Statement of Public Participation*** (Saesneg yn unig),  Mai 2012, [fel ar 16 Awst 2012]
[20] Llywodraeth yr Alban ***Planning Scotland's Seas – Scotland's National Marine Plan Consultation Draft*** , (Saesneg yn unig) Gorffennaf 2013 [fel ar 6 Tachwedd 2014]
[21] Gwefan Llywodraeth yr Alban, ***Timetable*** (Saesneg yn unig) [6 Tachwedd 2014]

mabwysiadu'r Cynllun Morol Cenedlaethol. Bydd y Bartneriaeth Cynllunio Morol yn gyfrifol am gynllunio morol ac am reoli ardaloedd arfordirol drwy ddulliau integredig ym mhob rhanbarth morol. Bydd y bartneriaeth yn cynnwys person a enwebir gan Weinidogion yr Alban, yn ogystal ag un neu ragor o awdurdodau cyhoeddus a/neu randdeiliaid.[22] Cynhaliwyd prosiectau peilot lleol i roi agweddau gwahanol ar reoli a chynllunio morol ar brawf fel rhan o Fenter Amgylchedd Morol Cynaliadwy yr Alban.

Mae Gogledd Iwerddon wedi mabwysiadu *Deddf Môr (Gogledd Iwerddon) 2013* a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 17 Medi 2013.[23] Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n caniatau i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon fabwysiadu fframwaith cynllunio gofodol morol ar gyfer dyfroedd y glannau. Mae gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, fel gweithrediaeth yr Alban, gyfrifoldeb o dan Ddeddf Môr y DU dros gynllunio yn nyfroedd y môr mawr. Mae Cynllun Morol Gogledd Iwerddon yn cael ei baratoi ar hyn o bryd gan Dîm Cynllunio Morol Adran yr Amgylchedd. Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2012, dywedodd Adran yr Amgylchedd wrth yr awdurdodau perthnasol am ei bwriad i ddechrau gweithio ar Gynllun Morol Gogledd Iwerddon. Fel rhan o'r broses hon, cyhoeddodd y Tîm Cynllun Morol ei Ddatganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ym mis Mehefin 2012, a chafodd hwn ei ddiwygio a'i ddiweddaru ym mis Mai 2013.[24]

[22]Gwefan Llywodraeth yr Alban ***Marine Planning***, (Saesneg yn unig) [fel ar 6 Tachwedd 2014]
[23]Gwefan Adran yr Amgylchedd, ***Marine Act (Northern Ireland) 2013***(Saesneg yn unig) [fel ar 6 Tachwedd 2014]
[24]Adran yr Amgylchedd ***The Marine Plan for Northern Ireland***(Saesneg yn unig) [fel ar 6 Tachwedd 2014]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am Gynllunio Gofodol Morol, cysylltwch â Nia Seaton (**Nia.Seaton@Cynulliad.Cymru**), y Gwasanaeth Ymchwil.

Gweler hefyd:

– Gwefan Llywodraeth Cymru: **Cynllunio Morol**

– Gwefan y Sefydliad Rheoli Morol: **Marine Planning** (Saesneg yn unig)

– Gwefan Llywodraeth yr Alban: **Marine Planning** (Saesneg yn unig)

– Gwefan Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon: **Marine Act** (Saesneg yn unig)

– Gwefan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y DU: **Marine Planning System** (Saesneg yn unig)

– Darllenwch ein **holl gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

Gallwch ein dilyn ni ar Twitter hefyd: **@SeneddYmchwil**

Rydym yn croesawu sylwadau. Dylid anfon y rhain i'r: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn neges e-bost i **Ymchwil@Cynulliad.Cymru**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi paratoi'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn ag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i'r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: 14/2788**